# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Meithrinfa Ddydd Ddwyieithog Hwyl a Sbri**

**17 Heol Newydd**
**Llanelli**
**SA15 3DP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/03/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:*
*psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa Ddydd Ddwyieithog Hwyl a Sbri yn wasanaeth gofal dydd llawn sy'n darparu gofal i hyd at 32 o blant rhwng tri mis ac wyth oed. Darperir y gofal yn ddwyieithog ar ddau lawr yn yr adeilad. Rebecca Davies yw'r unigolyn cyfrifol ar ran Hwyl a Sbri Cyf. Rebecca Davies, Amy Evans, Jasmine Williams a Samantha Farmer yw'r personau â chyfrifoldeb am y gwasanaeth.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| Llesiant | Da |
| Gofal a Datblygiad | Digonol |
| Yr Amgylchedd | Digonol |
| Arwain a Rheoli | Digonol |

1. **Asesiad cyffredinol**
   Mae gan y plant ym Meithrinfa Ddydd Ddwyieithog Hwyl a Sbri lais cryf ac maent yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn ymgysylltu â'r gweithgareddau ac yn cael cyfleoedd i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r staff yn gweithio'n dda ac yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhai gwelliannau er mwyn sicrhau y dilynir arferion cyson. Mae'r arweinwyr yn cynnig amgylchedd diogel, glân a chroesawgar i'r plant, ac mae ganddynt amrywiaeth eang o adnoddau a chyfarpar sy'n addas ar gyfer ystod oedran y plant sy'n cael gofal. Mae'r arweinwyr yn gweithio'n ddigonol i sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio, bod y staff yn addas, a'u bod yn cynnal adolygiad o ansawdd eu gofal yn flynyddol.

2. **Gwelliannau**
   Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r gwasanaeth wedi rhoi bron pob un o'r argymhellion a wnaed ar waith. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn darparu'r bwyd a nodir ar y fwydlen wythnosol i'r plant, ac maent yn sicrhau bod y staff yn dal y babanod wrth eu bwydo. Mae'r arweinwyr wedi datblygu'r ardal chwarae yn yr awyr agored ac, yn dilyn argymhellion a wnaed yn yr arolygiad blaenorol, maent wedi symud y potiau paent o'r ardal chwarae yn yr awyr agored. Maent wedi adeiladu ardal aros/cyntedd blaen newydd i wella diogelwch y plant sy'n cyrraedd/gadael y safle.

3. **Gofynion ac argymhellion**
   Rydym wedi gwneud rhai argymhellion a nodir ar ddiwedd yr adroddiad.

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Mae gan y plant lais cryf yn y gwasanaeth. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus iawn. Mae'r plant yn setlo'n gyflym ac yn gyfarwydd â'u harferion. Maent yn rhyngweithio'n llawn brwdfrydedd â'r bobl o'u cwmpas, gan rannu a chydweithio'n llwyddiannus. Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu, ac yn dangos mwynhad a theimladau o gyflawniad pan maent yn gwneud pethau drostynt eu hunain. Maent yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol yn ddigonol.

### Ein canfyddiadau

Mae'r plant yn siarad neu'n mynegi eu hunain yn dda am eu bod yn cael ymateb/rhyngweithio priodol. Yn ystod amser cinio, nid oedd un o'r plant yn hoffi'r pwdin a oedd ar gael ac felly rhoddwyd dewis amgen iddo. Maent yn cael rhai cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu chwarae. Gall plant o bob oedran ddewis teganau ac adnoddau yn rhydd.

Mae'r plant yn weithgar ac yn dangos mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn ac maent yn dechrau gwneud ffrindiau, Roedd y plant yn symud o gwmpas eu hystafelloedd yn hyderus, yn archwilio adnoddau neu'n dangos eu teganau i eraill. Roeddent yn gwenu ar y staff a'r plant eraill. Mae'r plant yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni. Wrth gyrraedd y gwasanaeth, gwnaeth bron pob un o'r plant wenu, ac aethant yn syth i'w hystafelloedd neu sefyll gyda'r staff er mwyn mynd i fyny'r grisiau. Rhoddwyd llawer o gysur a maldod i unrhyw blant a oedd heb setlo nes eu bod wedi gwneud hynny ac yn mynd i chwarae.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gyson dda – mae'r plant yn dangos diddordeb ar y cyfan. Roeddent yn dilyn ei gilydd ar y sleid a gwnaeth un plentyn gynnig creon i blentyn arall i'w annog i ymuno yn yr ardal greadigol. Mae'r plant yn chwarae'n dda gyda'i gilydd am eu hoedran ac maent yn cydweithio ac yn cymryd eu tro yn gyffredinol. Daeth y babanod hŷn draw atom yn hyderus i rannu tryc, gan ymestyn eu breichiau a gwenu wrth iddynt ei basio i ni. Gwnaeth y plant hŷn chwarae 'gyrru heibio' yn y castell, gan archebu wrth y ffenestr a phasio bwyd i'w gilydd.

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau amrywiaeth eang o gyfleoedd priodol dan do ac yn yr awyr agored a gallant hefyd ymlacio a chael cyfnodau tawel. Mae'r plant yn rhydd i archwilio eu hamgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel. Maent yn cael eu cefnogi'n ddigonol i gymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n arwain at ymdeimlad rhesymol o gyflawni rhywbeth a hunan-barch. Roedd un plentyn yn llawn cyffro wrth iddo gwblhau ei gerdyn Sul y Mamau. Maent yn fodlon dangos neu siarad am yr hyn y maent wedi bod yn ei wneud. Roedd y babanod yn parablu'n fodlon ac yn gwneud synnau wrth archwilio adnoddau yn y babell synhwyrau. Pan ofynnwyd i blentyn gymryd rhan mewn gweithgaredd wedi'i arwain gan oedolyn, dywedodd yn llawn cyffro,*“I’m coming to help you.”*

Mae'r plant yn cael amrywiaeth o gyfleoedd sy'n addas ar gyfer eu hoedran/datblygiad sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Wrth chwarae yn yr awyr agored, defnyddiodd y plant y bwrdd sialc i chwarae gyda rhifau a gwneud marciau. Maent yn defnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u chwarae a'u gweithgareddau. Er enghraifft, enwi'r lliwiau, y bwydydd a'r llestri yn y gornel cartref. Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud rhai pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, roeddent yn cael eu hannog i ddefnyddio eu cyllyll a'u ffyrc i fwydo eu hunain, ac roedd rhai o'r plant yn cael eu hannog i dorchi eu llewys i olchi eu dwylo. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cael ei wneud yn gyson gyda phob plentyn.

## 2. Gofal a Datblygiad **Digonol**

### Crynodeb

Mae'r staff yn gweithio'n briodol er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn plant, ac mae bron pob aelod o'r staff yn gweithredu arferion hylendid a glanhau priodol. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o'r staff yn dilyn y rhain yn gyson. Mae'r staff yn rheoli rhyngweithio'n dda ac yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol. Maent yn datblygu cydberthnasau da â'r plant yn eu gofal. Mae'r staff yn gweithio'n ddigonol i hyrwyddo sgiliau dysgu, datblygu ac annibyniaeth y plant. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau pellach yn y maes hwn.

### Ein canfyddiadau

Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn datblygu eu dealltwriaeth ac yn gweithio tuag at roi polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol. Mae'r staff yn ymwybodol o'r risgiau yn yr amgylchedd, yn eu gwirio'n ddyddiol, ac mae hysbysiadau diogelwch ar y wal. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu'r plant ac roeddent yn hyderus ynghylch yr hyn i'w wneud pe bai digwyddiad yn ymwneud ag amddiffyn plant. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn gweithredu arferion glanhau a hylendid addas, gan gynnwys gwisgo menig i baratoi bwyd a golchi a diheintio eu dwylo yn rheolaidd. Fodd bynnag, roedd rhai arferion hylendid yn cael eu hepgor. Er enghraifft, nid oedd dwylo'r babanod yn cael eu golchi cyn cael byrbryd, ac nid oedd y plant yn cael eu hannog i sychu eu trwyn na golchi eu dwylo ar ôl tishan. Mae'r staff yn paratoi amrywiaeth o fwydydd iach ac yn dilyn bwydlen tair wythnos, ac mae pob aelod o'r staff yn cymryd cyfrifoldeb i baratoi'r prydau a byrbrydau.

Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson. Roeddent yn atgoffa'r plant i ddefnyddio 'dwylo caredig' ac yn siarad â'r plant gan ddefnyddio llais tawel ac addfwyn pan oeddent yn ymddwyn mewn ffordd annymunol. Roedd y staff yn canmol y plant llawer gan gynnwys dweud *"well done/da iawn"*, *"good girl/boy",* ac yn defnyddio 'pawen lawen' pan oedd y plant yn cwblhau gweithgaredd neu'n gwneud rhywbeth yn dda. Maent yn fodelau rôl da bob amser, ac yn annog y plant i ryngweithio, neu'n modelu iaith briodol wrth eistedd mewn grŵp. Ar y cyfan, mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Roedd y staff yn ymwybodol o anghenion unigol y plant a phrofiadau'r plant yn eu gofal. Roeddent yn gallu trafod y strategaethau maent yn eu defnyddio gyda phlant unigol i ddelio â'u hymddygiad.

Mae'r staff yn darparu amrywiaeth briodol o weithgareddau chwarae a dysgu. Yn gyffredinol, maent yn ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant ac, yn ddiweddar, maent wedi ail-ddechrau ysgrifennu arsylwadau ar y plant. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio ar gyfer y camau datblygu nesaf. Mae'r staff yn cyfrannu at gynllunio sylfaenol. Ar hyn o bryd, fodd

bynnag, nid oes adolygiad i gefnogi anghenion unigol nac i nodi na chofnodi pryd y mae gan y plant anghenion ychwanegol o bosibl. Mae'r staff yn gweithio gyda'r rhieni ac asiantaethau allanol i gefnogi'r plant sydd ag anghenion ychwanegol. Fodd bynnag, esboniodd rhai aelodau o'r staff na fyddent yn teimlo'n hyderus i siarad â'r rhieni pe baent yn teimlo bod gan blentyn anghenion ychwanegol. Mae'r staff yn cynnig rhai cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth. Fodd bynnag, collwyd cyfleoedd eraill. Er enghraifft, gwnaeth un plentyn ddal ei ddwylo allan i'r staff dorchi ei lewys, ac ni wnaeth yr aelod hwnnw o'r staff annog y plentyn i geisio gwneud hynny ar ei ben ei hun. Maent yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni yn ddyddiol drwy adborth ysgrifenedig ac adborth ar lafar.

## 3. Yr Amgylchedd Digonol

**Crynodeb**

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel a chroesawgar. Maent yn cwblhau gwiriadau diogelwch ac ymarferion tân rheolaidd. Maent yn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r risgiau ac yn cwblhau asesiadau risg boddhaol. Fodd bynnag, mae angen iddynt gynnwys ardaloedd eraill fel rhan o'u hasesiadau risg parhaus. Mae'r arweinwyr yn cynnig amrywiaeth eang o adnoddau, teganau a chyfarpar sy'n addas ar gyfer ystod oedran y plant yn eu gofal.

**Ein canfyddiadau**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r safle'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan. Fodd bynnag, roedd paent wedi cracio a rhai marciau du ar un wal. Gwnaeth yr arweinwyr esbonio eu bod eioses wedi nodi bod angen gwella'r ardal hon, ac ers yr ymweliad arolygu, maent wedi anfon lluniau yn dangos eu bod wedi cwblhau'r gwelliannau. Mae'r arweinwyr yn trefnu gweithdrefnau glanhau sylfaenol sy'n adlewyrchu arferion hylendid boddhaol. Ar y cyfan, mae eu harferion rheoli heintiau digonol yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant i'r eithaf. Mae'r arweinwyr yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol ac asesiadau risg tân boddhaol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw asesiadau risg ar gyfer mynd â'r plant i'r ysgol a'u casglu oddi yno, nac ychwaith ar gyfer defnyddio cerbydau. Caiff gwiriadau diogelwch ac ymarferion tân rheolaidd eu cynnal.

Mae'r safle'n groesawgar ac yn gynnes. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dda dan do er mwyn i'r plant symud yn rhydd. Maent yn cynnig dwy ystafell babanod i fyny'r grisiau, a dwy ystafell ar y llawr gwaelod y mae plant cyn ysgol a phlant hŷn yn eu defnyddio. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant ac yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial. Mae gan bob ystafell arddangosfeydd ar y waliau, gan gynnwys gwaith y plant a storfeydd isel. Mae'r arweinwyr yn trefnu'r amgylchedd mewn ffordd briodol fel ei fod yn cynnig amrywiaeth foddhaol o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer ystodau oedran y plant y gofelir amdanynt.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau y gall y plant gael mynediad at amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau a chyfarpar dan do sydd o ansawdd da ac yn addas ar gyfer oedran y plant. Mae'r arweinwyr yn darparu rhai adnoddau er mwyn ennyn chwilfrydedd y plant am y gymdeithas ehangach, gan hyrwyddo cydraddoldeb, a chodi ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Mae'r adnoddau yn yr awyr agored yn ymestyn gwybodaeth a datblygiad y plant drwy gynnig amrywiaeth dda o adnoddau. Mae lluniau yn y gwasanaeth yn dangos bod yr ardal awyr agored yn cael ei defnyddio gan y plant i chwarae ac ymestyn eu dysgu.

## 4. Arwain a Rheoli Digonol

### Crynodeb

Mae arweinyddiaeth y gwasanaeth yn gweithio'n briodol ac yn parhau i ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach. Mae ganddynt bolisïau ar waith sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, ond nid ydynt yn adlewyrchu'r ymarfer yn llawn. Mae'r arweinwyr yn adolygu ansawdd eu gofal yn sylfaenol. Fodd bynnag, mae angen gwneud datblygiadau pellach. Maent yn rheoli'r staff ac adnoddau eraill yn ddigonol ac yn sicrhau bod digon o staff addas i ddiwallu anghenion y plant. Mae gan yr arweinwyr bartneriaethau digonol â'r rhieni ac maent yn darparu gwybodaeth iddynt, ac yn gweithio gydag asiantaethau allanol i gefnogi anghenion a nodwyd.

### Ein canfyddiadau

Mae gan yr arweinwyr ddatganiad o ddiben cyfredol, boddhaol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir ac sy'n cyrraedd y rhan fwyaf o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid oedd yn nodi mai dim ond uchafswm o 20 o blant dros ddwy oed y gallant eu derbyn oherwydd y nifer cyfyngedig o doiledau plant. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r arweinwyr wedi diweddaru'r datganiad o ddiben ac wedi anfon copi i Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae gan yr arweinwyr lawer o wybodaeth am eu cyfrifoldebau rheoliadol ac yn adolyu eu polisïau. Fodd bynnag, nid yw pob polisi yn adlewyrchu'r ymarfer yn llawn. Er enghraifft, nid yw'r polisi cwynion yn cynnwys yr amserlenni na sut y bydd canlyniad yr ymchwiliad yn cael ei rannu â'r achwynydd. Roedd y polisi newid cewynnau yn cynnwys rhai gweithdrefnau nad oedd yn cael eu dilyn ar ddiwrnod yr arolygiad. Er enghraifft, er bod y polisi newid cewynnau yn nodi y dylai'r staff ddefnyddio papur glas ar y mat newid cewynnau a defnyddio arwydd gorsaf aflan fel rhan o'u polisi newid cewynnau, ni ddigwyddodd hyn yn ystod yr arolygiad. Hefyd, mae'r polisi ymddygiad yn nodi y byddant yn cwblhau ac yn cadw cofnod digwyddiadau. Fodd bynnag, ar ôl trafod â'r arweinydd, nid oedd hyn yn cael ei ddilyn. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r arweinwyr wedi cadarnhau eu bod yn defnyddio ffurflen cofnodi digwyddiadau. Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau clir ac yn sicrhau bod y cofnodion gofynnol yn cael eu cadw. Yn gyffredinol, maent yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru ac yn rhoi gwybod iddi am y digwyddiadau mwyaf arwyddocaol. Fodd bynnag, ni wnaeth yr arweinydd gwblhau hysbysiad ar gyfer y newid mwyaf diweddar i'r personau â chyfrifoldeb. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r arweinwyr wedi rhoi gwybod i AGC am newidiadau i'r personau â chyfrifoldeb. Mae'r arweinwyr wedi rhoi bron pob un o'r argymhellion a wnaed yn yr arolygiad blaenorol ar waith. Bellach, maent yn cydymffurfio mewn perthynas â'r weithdrefn diogelu ac maent wedi nodi meysydd i'w gwella.

Mae'r arweinwyr yn adolygu ansawdd gofal yn flynyddol. Maent yn gofyn am awgrymiadau gan y plant, eu rhieni/gofalwyr a'r staff. Roedd yr adroddiad ar ansawdd y gofal yn adolygu rhai meysydd o'r gwasanaeth ac yn tynnu sylw at y newidiadau a'r gwelliannau dros y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, nid oedd yr adroddiad yn cynnwys adolygiad o'r gwasanaeth yn gyffredinol. Nid oedd yn adlewyrchu'r adborth gan y staff, y plant na'r rhieni/gofalwyr, nac yn cynnwys eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn er mwyn diogelu'r plant. Mae ganddynt systemau digonol ar waith i ddiweddaru gwiriadau ynglŷn ag addasrwydd fel sy'n ofynnol. Fodd bynnag, nid oedd ffeil un aelod o'r staff yn cynnwys CV a oedd ag esboniad ysgrifenedig o fylchau yn ei hanes cyflogaeth, ac nid oedd y gwasanaeth yn cofnodi ei fod wedi gweld tystysgrifau geni fel rhan o'r gwiriadau cyn cyflogi. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r arweinydd wedi anfon cadarnhad bod ffeiliau pob aelod o'r staff yn cynnwys esboniadau ysgrifenedig o fylchau yn eu CV, ac y caiff cofnod ysgrifenedig ei gadw bellach i nodi bod tystysgrifau geni yn cael eu gweld. Mae gan y staff dystysgrifau dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, nid oedd gan yr Unigolyn Cyfrifol dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaeth yr Unigolyn Cyfrifol gwblhau ei chais i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac ers hynny, mae wedi anfon cadarnhad bod ganddi dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae hefyd wedi cynnwys ei hun ar y rhestr atgoffa i adnewyddu tystysgrifau. Mae'r arweinwyr yn gweithredu gweithdrefn sefydlu briodol i'r staff ac yn annog y staff i geisio cymorth drwy gynnig adegau i'r staff siarad ar sail un i un. Mae'r broses rheoli perfformiad yn foddhaol ac yn annog y staff i ymgymryd â hyfforddiant gorfodol. Mae'r arweinwyr yn cynnal arfarniadau priodol ac mae rhai aelodau o'r staff yn cael eu goruchwylio. Fodd bynnag, nid oedd y sesiynau yn cael eu dyddio nac yn cael eu cynnal yn gyson gyda phob aelod o'r staff. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r arweinwyr wedi datblygu siart amserlen goruchwylio i sicrhau cysondeb wrth gynnal sesiynau goruchwylio gyda'r staff. Mae'r staff yn sicrhau y caiff cymarebau staffio eu bodloni, ac roedd y staff a oedd â chyfrifoldebau ychwanegol yn hyderus ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn ddigonol. Yn gyffredinol, maent yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni gydag adborth ysgrifenedig ac adborth ar lafar dyddiol, ynghyd â chylchlythyrau a gwybodaeth amrywiol a gaiff ei harddangos ar fwrdd y rhieni yn y cyntedd. Mae'r arweinwyr yn ymateb yn gadarnhaol i wybodaeth a chyngor a roddir i wella llesiant y plant ac anghenion a nodwyd, gan weithio gydag asiantaethau allanol a'r rhieni.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Yn dilyn ein harolygiad, rydym yn argymell bod yr arweinwyr yn gwneud y canlynol:

- datblygu'r adroddiad ar ansawdd y gofal ymhellach
- sicrhau bod y polisïau yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir a datblygu'r polisi cwynion ymhellach
- datblygu mwy o asesiadau risg ar ddefnyddio cerbydau a chludo plant i'r ysgol a'u casglu oddi yno
- sicrhau bod y staff yn dilyn arferion hylendid da a argymhellir yn gyson
- sicrhau bod y staff yn datblygu camau nesaf fel rhan o'u cynllunio
- datblygu system er mwyn sicrhau bod y staff yn gallu siarad â'r rhieni am anghenion datblygu eu plant
- sichau bod y staff yn darparu cyfleoedd pellach i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 16 Mawrth 2020.

- Edrychwyd ar sampl o ddogfennau a pholisïau yn ystod yr ymweliad.
- Gwnaethom arsylwi ar arferion yn ystod yr ymweliad er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan y staff.
- Gwnaethom siarad â'r staff a'r plant.
- Gwnaethom arsylwi ar y plant gan ddefnyddio adnodd SOFI2 (Fframwaith arsylwi byr ar gyfer arolygu) ac arsylwadau cyffredinol.
- Rhoddwyd adborth i'r unigolyn cyfrifol dros y ffôn.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Rebecca Davies** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Amy Evans**<br>**Jasmine Williams**<br>**Samantha Farmer**<br>**Rebecca Davies** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **32** |
| **Ystod oedran y plant** | **Rhwng tri mis ac wyth oed** |
| **Oriau agor** | **7.30am – 6pm**<br>**O ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **20 Mehefin 2019** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **16 Mawrth 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/08/2020